

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Hydref 2017

Amser: 09.00 – 12.34

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/4326>

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mike Hedges AC (Cadeirydd) Huw Irranca-Davies AC Dai Lloyd AC David Melding AC Jenny Rathbone AC Simon Thomas AC
Tystion:	Yr Athro Roberta Sonnino, Prifysgol Caerdydd Gwyn Howells, Hybu Cig Cymru Andy Richardson, Food and Drink Wales Industry Board Peter Bryant, EDF Energy Annelise Cowie, EDF Energy Tom Davis, EDF Energy Chris Fayers, EDF Energy Stephen Roast, EDF Energy
Staff y Pwyllgor:	Marc Wyn Jones (Clerc)



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

	Louise Andrewartha (Dirprwy Glerc) Elfyn Henderson (Ymchwilydd) Katy Orford (Ymchwilydd)
--	--

## **1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Jayne Bryant a Gareth Bennett.

## **2 Ymchwiliad i ailfeddwl am fwyd yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth lafar ar gaffael bwyd – Academyddion**

Atebodd yr Athro Roberta Sonnino gwestiynau gan yr Aelodau.

## **3 Ymchwiliad i ailfeddwl am fwyd yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth lafar ar gaffael bwyd – Hybu Cig Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**

Atebodd Gwyn Howells, Prif Swyddog Gweithredol Hybu Cig Cymru, ac Andy Richardson, Cadeirydd Bwyd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, gwestiynau gan yr Aelodau.

Cytunodd Andy Richardson i anfon copi o'r araith a roddodd yng nghynhadledd Bwyd a Diod Cymru/ Llywodraeth Cymru, 'Buddsoddi mewn Sgiliau: Buddsoddi mewn Twf', at y Pwyllgor.

## **4 Ymchwiliad i ailfeddwl am fwyd yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth lafar ar gaffael bwyd – y Ffederasiwn Bwyd a Diod – gohiriwyd**

## **5 Papur(au) i'w nodi**

Nododd y Pwyllgor y papurau.

- 5.1 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at y Cadeirydd ynghylch argymhelliad 21 yn adroddiad y Pwyllgor, 'Dyfodol rheoli tir yng Nghymru', sy'n ymwneud â chaffael bwyd gan gyrff cyhoeddus
- 5.2 Llythyr oddi wrth Bwyllgor Cymru y Conffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor) at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch adroddiad y Pwyllgor, 'Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd'
- 5.3 Llythyr oddi wrth Reolwr Cymru y Conffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor), yn cynrychioli cwmnïau prosesu pren, at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch adroddiad y Pwyllgor, 'Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd'
- 5.4 Llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Cymru Coed Cadw ynghylch adroddiad y Pwyllgor, 'Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd'
- 5.5 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor, 'Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd'
- 5.6 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch y papur gan Banel Asesu y DU Comisiwn y Byd ar Ardaloedd Gwarchoddedig yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ar yr adroddiad, 'Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru'
- 5.7 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor, 'Y Llanw'n Troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig'
- 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

**7 Ymchwiliad i ailfeddwl am fwyd yng Nghymru – trafodaeth breifat yn dilyn y sesiynau tystiolaeth lafar a thrafodaeth ar y camau nesaf**

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.

**8 Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd**

Cafodd yr Aelodau y wybodaeth ddiweddaraf cyn holi cwestiynau ynghylch sawl mater.

**9 Y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid Hinsawdd**

Gwrandawodd yr Aelodau ar y wybodaeth ddiweddaraf.

**10 Sesiwn friffio breifat anffurfiol gan EDF Energy ar garthu a gollwng gwaddodion sy'n gysylltiedig â Hinkley Point C**

Holodd yr Aelodau gwestiynau am gynigion EDF Energy i dynnu gwaddodion o Fôr Hafren.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch sawl mater a gododd yn ystod y cyflwyniad sy'n benodol i'r drwydded forol benodol hon.